OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 1197 (Cy. 214)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Awst 2019* |
| *Yn dod i rym* | *16 Awst 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ar ôl rhoi rhybudd cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019 a daw i rym ar 16 Awst 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Awst 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua’r gogledd y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 70 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) hyd at ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua’r de y gefnffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) hyd at bwynt 40 o fetrau i’r de o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

Y darnau o’r ffordd ymuno tua’r gogledd a’r ffordd ymadael tua’r de wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

Y darnau o'r ffordd ymadael tua'r gogledd a'r ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).